

Cerddor

Cyflwyniad

Fel Cerddor, byddwch yn perfformio'n fyw mewn cyngherddau a gwyliau. Byddwch hefyd yn recordio cerddoriaeth i'w gwerthu i'r cyhoedd. Byddwch yn treulio llawer o amser mewn clyweliadau ac yn ymarfer ar gyfer perfformiadau. Gallech hefyd fod yn addysgu cerddoriaeth neu'n cyfansoddi cerddoriaeth.



Adwaenir hefyd fel

- Cyfansoddwr
- Seren Roc (Cerddor)
- Seren y Byd Pop (Cerddor)

Gweithgareddau Gwaith

Yn ogystal â pherfformio, byddwch yn treulio cryn dipyn o'ch amser yn ymarfer, yn rihysio, yn gwneud clyweliadau ac yn cynllunio perfformiadau. Yn aml, cyfunir y gweithgareddau hyn â chyfansoddi neu addysgu cerddoriaeth.

Cerddoriaeth glasurol

Fel Cerddor Clasurol, byddwch yn ennill profiad ac yn ffurfio cysylltiadau trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau, gwyliau a chyngherddau. Os bydd y gystadleuaeth yn ffyrnig, efallai y byddwch yn defnyddio asiantau proffesiynol i'ch hyrwyddo chi a'ch gwaith. Mae'r rhan fwyaf o Gerddorion sydd newydd gael hyfforddiant yn perfformio amrywiaeth o waith unawd, corawl/cerddorfaol ac ensemble.

Fel Perfformiwr Cerddorfaol, gallwch weithio'ch ffordd i fyny i ben y proffesiwn gan ddod yn unawdwr offerynnol. Bydd rhaid i chi fuddsoddi mewn offeryn o ansawdd dda a theithio o gwmpas gyda'r gerddorfa.

Cerddoriaeth boblogaidd

Fel Cerddor sydd ddim yn Gerddor Clasurol, fel arfer byddwch yn cychwyn trwy berfformio mewn nosweithiau byw i gael pobl i'ch dilyn ac yn anfon perfformiadau enghreifftiol (demos) at gwmnïau recordio. Mae cynrychiolwyr adrannau Artistiaid a Repertoire ('A and R') cwmnïau recordio'n gwrandao ar berfformiadau enghreifftiol bandiau ac yn mynd i'r nosweithiau byw, gan gynnig cytundeb recordio i rai perfformwyr.

Yn fwy aml y dyddiau hyn, mae artistiaid a bandiau'n hyrwyddo ac yn gwerthu eu cerddoriaeth eu hunain dros y rhyngwrwyd, felly dyma rywbeth y gallech chi ei ystyried.

Yn gynnar yn eich gyrfa, fel arfer bydd angen i chi ddod o hyd i reolwr. Fel arfer, y rheolwr sy'n gyfrifol am drefnu cefnogaeth ariannol, dod o hyd i leoliadau addas a'ch helpu chi i hyrwyddo'ch hun yn effeithiol.

Efallai y byddwch yn ennill bywoliaeth trwy chwarae mewn nosweithiau byw mewn tafarnau, clybiau, gwestai, gwrsylloedd gwyliau ayb. Fel arfer, byddwch yn arbenigo mewn math penodol o gerddoriaeth, e.e. roc, pop, jazz ac ati.

Gallech ddefnyddio asiantau adloniant lleol i'ch helpu i ddod o hyd i waith. Neu, efallai y gallech hyrwyddo'ch hun e.e. trwy osod posteri, dosbarthu pamffledi a chael sylw yn y wasg leol. Gallech berfformio nosweithiau byw unwaith yn unig mewn llefydd gwahanol neu chwarae'r haf cyfan mewn un lleoliad.

Fel Cerddor, gallwch ddisgwyl teithio i leoliadau'n lleol, yn genedlaethol ac efallai'n rhyngwladol.

Gallai'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Gerddor, bydd arnoch angen:

- dawn a chreadigrwydd
- angerdd am gerddoriaeth
- ymrwymiad a disgyblaeth
- dyfalbarhad corfforol a meddyliol

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae cyfraddau cyflogau Cerddorion yn amrywio'n eang yn ôl y math o leoliad rydych yn chwarae ynddo, eich sgiliau a ffactorau eraill.

Fel Cerddor hunangyflogedig, byddwch chi'n dibynnu ar daliadau am berfformiadau unigol a gwerthiant cerddoriaeth. Gall hyn fod yn anodd iawn ei ragweld.

Fel Cerddor llwyddiannus mewn band roc/pop, gallwch ennill arian mawr trwy berfformiadau byw a thrwy freindaliadau a ddaw o werthu recordiau a deunydd marchnata.

Fel Cerddor Cerddorfaol cyflogedig, gallwch ddisgwyl ennill rhwng £25,000 a £35,000 y flwyddyn, ac mae cyflogau uwch yn bosibl. Mae cyflogau Cerddorion sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn amrywio yn ôl y math o gontract sydd ganddynt. Ceir rhestr o'r ffioedd ar gyfer mathau gwahanol o gontractau ar wefan Cymdeithas Gorfforedig y Cerddorion (ISM) (www.ism.org).

Mae Undeb y Cerddorion a'r ISM yn cynnig cyngor a gwybodaeth am ffioedd i'w haelodau.

Oriau gwaith

Mae Cerddorion yn gweithio oriau afreolaidd - ac felly bydd angen i chi fod yn barod i ddechrau'n fore, gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos a gwyliau banc.

Ble y gallwn i weithio?

Mae gwaith ar gael mewn meysydd megis perfformio (gan gynnwys gwaith sesiynau a gwaith ar eich liwt eich hun), cyfansoddi, arwain ac addysgu. Mae Cerddorion yn perfformio mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys clybiau, tafarndai, partion, dawnsfeydd elusennol, theatrau, gwyliau a llongau mordeithio, yn ogystal â stiwdios recordio.

Mae cyfleoedd yn bodoli i Gerddorion weithio mewn gwledydd eraill, fel arfer ar deithiau neu mewn gwyliau.

Hunangyflogaeth

Mae llawer o Gerddorion yn hunangyflogedig.

Ble y caiff swyddi gwag eu hysbysebu?

Caiff swyddi gwag eu hysbysebu ar wefannau megis The Stage (www.thestage.co.uk), StarNow www.starnow.co.uk ac Arts Professional (www.artsprofessional.co.uk).

Fodd bynnag, mae newydd-ddyfodiaid fel arfer yn gorfod eu hyrwyddo'u hunain trwy gysylltu â hyrwyddwyr, asiantau, clybiau cerddoriaeth a threfnwyr cyngherddau.

Mae gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, megis LinkedIn, Twitter neu Facebook, yn ffordd dda o rwydweithio, dod o hyd i swyddi gwag, a chysylltu â chyflogwyr posibl. Gwnewch yn siwr bod eich proffil yn rhoi argraff broffesiynol a fydd yn ddeniadol i ddarpar gyflogwyr. Darllenwch ein Herthygl Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch "Dod o hyd i waith ar-lein".

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Cerddoriaeth boblogaidd

Mae llawer o ddechreuwr ym myd cerddoriaeth bop, roc ac arddulliau cerddorol eraill wedi dysgu eu hunain. Yn aml, maent yn cychwyn drwy chwarae fersiynau o waith Artistiaid eraill cyn datblygu eu deunydd a'u harddull eu

hunain.

Ar y cyfan, mae graddau prifysgol yn trin cerddoriaeth fel pwnc academiaidd. Serch hynny, mae'r radd sylfaen mewn cerddoriaeth boblogaidd (sydd ar gael mewn nifer o ganolfannau o amgylch y wlad) yn canolbwyntio ar yr ochr ymarferol ac mae digon o gyfle fel arfer i ennill profiad mewn perfformiadau myfyrwyr a pherfformiadau amatur.

Cerddoriaeth glasurol

Mae cerddorion clasurol fel arfer yn dechrau gwersi rhwng pump a deng mlwydd oed. Mae'r rhan fwyaf o gerddorion ifanc yn cyfuno'u hastudiaethau arferol yn yr ysgol â gwersi cerddoriaeth ynghyd ag ymarfer a chymryd rhan mewn grwpiau cerddoriaeth lleol am oriau lu.

Mae cerddorion clasurol yn gwneud cwrs arbenigol mewn coleg cerdd neu radd mewn cerddoriaeth yn y brifysgol. Mae rhai'n gwneud gradd yn y celfyddydau perfformio.

Mae'r myfyrwyr sy'n cyrraedd y safon eithriadol sy'n angenrheidiol i ddilyn gyrfa ym myd perfformio, cyfansoddi neu arwain fel arfer yn gwneud cwrs ôl-radd/uwch mewn coleg cerdd.

Unwaith y bydd yr hyfforddiant llawn amser wedi'i gwblhau, byddant yn dal ati i astudio drwy gyfrwng gwersi preifat tra'u bod yn denu enw da iddynt eu hunain yn eu maes penodol, er enghraifft, gwaith unawdydd a/neu ensemble. Gan na fydd llawer o fyfyrwyr yn cyrraedd y safon hon, mae'r colegau cerdd hefyd yn darparu modiwlau i baratoi i wneud gwaith dysgu neu waith arall mewn meysydd sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth.

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Cynllun Cerdd a Dawns y Llywodraeth <http://www.education.gov.uk/schools/toolsandinitiatives/b0068711/mds> yn cynnig mynediad at hyfforddiant arbenigol mewn cerdd a dawns (ochr yn ochr ag addysg academiaidd) i tua 2,200 o blant dawns y flwyddyn.

I rai, mae'r cynllun yn helpu'r rhieni i dalu'r ffioedd a'r costau preswyl mewn ysgolion annibynnol arbenigol. I eraill, mae hyfforddiant mynediad lleol ar gael y tu allan i oriau ysgolion.

Cymwysterau

Er mwyn cael mynediad i gwrs gradd mewn cerddoriaeth, y gofynion arferol yw:

- 2/3 lefel A, gan gynnwys cerddoriaeth
- TGAU gradd C/4 neu uwch mewn 3 phwnc arall.

Hefyd, gellid ystyried cymwysterau eraill megis:

- cymhwyster BTEC Lefel 3 mewn cerddoriaeth.
- Gellid hefyd ystyried Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol. Mae gofynion mynediad cyrsiau gradd yn amrywio; felly, gwiriwch y prosbectysau yn ofalus.

Fel arfer, mae disgwyl i ymgeiswyr graddau fynd i wrandawriad cyn sicrhau cael lle. Serch hynny, mae'r gofynion mynediad yn amrywio - gwiriwch brosbectysau/gwefannau'r colegau/prifysgolion i gael manylion. Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag un cymhwyster Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Cyfyngiadau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod cyfyngiadau oedran ar gael mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gallant ddangos bod gwir angen am y cyfyngiadau hynny.

Fel arfer, gosodir terfyn oedran uchaf ar gael mynediad i wasanaethau cerddoriaeth y lluoedd arfog, sef 39 oed yn yr RAF, 32 oed i'r Môr-filwyr Brenhinol a 33 oed yn y Fyddin.

Profiad

Enillodd llawer o ddechreuwy'r llwyddiannus sgiliau a gallu dros gyfnod maith o amser. Gallai hynny fod mewn cerddorffeydd, wrth berfformio cyngherddau eglwysig ac elusennol, neu mewn bandiau yn y clybiau lleol.

Cyrsiau

Mae llawer o golegau ac ysgolion cerdd yn ymlacio'r gofynion mynediad arferol i ymgeiswyr sydd â phrofiad cerddorol sylweddol neu brofiad sylweddol o berfformio boed hynny am dâl neu'n ddi-dâl.

Dysgu o bell

Cynigir cyrsiau drwy gyfrwng dysgu o bell yn y Brifysgol Agored (MA mewn Cerddoriaeth) ac yng Ngholeg Agored y Celfyddydau.

Mae Prifysgol Bath Spa yn cynnig gradd Meistr ym maes ysgrifennu caneuon sydd ar gael drwy ddysgu o bell.

Cyllid

Mae cymorth ariannol i ddilyn astudiaethau ar gael oddi wrth:

- Cwmni Hybarch y Cerddorion www.wcom.org.uk
- Ymddiriedaeth Finzi www.geraldfinzi.org
- Cronfa Radlon y Cerddorion www.helpmusicians.org.uk
- Sefydliad Sain Gerddorol EMI www.emimusicfoundation.com

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Creative Skillset**
Skills for the creative industries
E-bost info@creativeskillset.org
Gwefan www.creativeskillset.org
- **Creative Choices**
Publisher: Creative & Cultural Skills
E-bost info@creative-choices.co.uk
Gwefan www.creative-choices.co.uk
- **Open University (OU)**
Ffôn 0845 3006090
Gwefan www.open.ac.uk
- **Creative & Cultural Skills**
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts
E-bost london@ccskills.org.uk
Gwefan ccskills.org.uk
- **Creative Scotland**
Scottish enquiries
E-bost enquiries@creativescotland.com
Gwefan www.creativescotland.com
- **Arts Council England**
Ffôn 0845 3006200
Gwefan www.artscouncil.org.uk
- **Arts Council of Northern Ireland**
Irish enquiries
Ffôn 028 9038 5200
E-bost info@artscouncil-ni.org
Gwefan www.artscouncil-ni.org
- **Equity**
Ffôn 020 7379 6000
E-bost info@equity.org.uk

Gwefan www.equity.org.uk

- **Equity (Scotland)**
Scottish enquiries
Ffôn 0141 2482472
E-bost scotland@equity.org.uk
Gwefan www.equity.org.uk
- **BPI: British Recorded Music Industry**
Ffôn 020 7803 1300
E-bost general@bpi.co.uk
Gwefan www.bpi.co.uk
- **Open College of the Arts**
Ffôn 0800 7312116
E-bost enquiries@oca-uk.com
Gwefan www.oca-uk.com
- **Musicians' Union (MU)**
Ffôn 020 7582 5566
E-bost info@theMU.org
Gwefan www.musiciansunion.org.uk
- **Worshipful Company of Musicians**
Ffôn 020 7496 8980
E-bost clerk@wcom.org.uk
Gwefan www.wcom.org.uk
- **Musicians Benevolent Fund**
Ffôn 020 7239 9100
Gwefan www.helpmusicians.org.uk
- **EMI Music Sound Foundation**
Ffôn 020 7795 7000
E-bost enquiries@emimusicfoundation.com
Gwefan www.musicfoundation.com
- **Conservatoires Admissions Service UK (CUKAS)**
Ffôn 0871 4680470
Gwefan www.cukas.ac.uk
- **Scottish Music Centre**
Scottish enquiries
Ffôn 0141 5525222
E-bost info@scottishmusiccentre.com
Gwefan www.scottishmusiccentre.com
- **Royal Marines Bands**
Gwefan www.royalmarinesbands.co.uk
- **Corps of Army Music**
Gwefan www.army.mod.uk/music/23254.aspx
- **Royal Air Force Music Services**
Gwefan www.rafmusic.co.uk
- **Equity (Wales)**
Cyfeiriad Third Floor, 1 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9SD
Ffôn 029 2039 7971
E-bost wales@equity.org.uk
Gwefan www.equity.org.uk

- **UCAS**

Cyfeiriad Rosehill, New Barn Lane, Cheltenham, Gloucestershire GL52 3LZ

Ffôn 0871 4680468

E-bost enquiries@ucas.ac.uk

Gwefan www.ucas.ac.uk

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Troellwr (DJ)
- Rheolwr Cerddoriaeth
- Rheolwr Llwyfan
- Technegydd Goleuadau Theatr
- Arlunydd Colur
- Technegydd Sain Theatr
- Criw Llwyfan
- Actor/Actores
- Dawnsiwr
- Canwr